

FFURFLEN MANYLION POLISI
POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONTSHEET

TEITL Y POLISI: POLICY TITLE:	<i>Polisi Ffioedd Dysgu a Arholiadau 2020/21</i>
UWCH-GYFARWYDDWR Â CHYFRIFOLDEB: RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:	<i>Y Gwasanaethau Corfforaethol</i>
PWRPAS: PURPOSE:	<i>Dyma bolisi Grŵp Llandrillo Menai ar dalu ffioedd dysgu a chonsesiynau</i>
GOBLYGIADAU O RAN RISGIAU: RISK IMPLICATIONS:	<i>Dylid codi'r un ffioedd dysgu ar draws y Grŵp a sicrhau y cesglir yr incwm yn llawn</i>
EFFAITH AR DDWYIEITHRWYDD IMPACT ON BILINGUALISM	
EFFAITH AR GYNALIADWYEDD IMPACT ON SUSTAINABILITY	
ARGYMHELLIAD: RECOMMENDATION:	<i>Cymeradwyo</i>
Y PWYLLGOR/GRŴP SY'N GYFRIFOL AM FONITRO: COMMITTEE / GROUP RESPONSIBLE FOR MONITORING:	<i>Y Tîm Strategol – 14/12/20 i gyfuno'r Polisi Ailsefyll Arholiadau a'r Polisi Ffioedd Y PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISGIAU</i>
CYMERADWYWYD GAN: APPROVED BY:	<i>Bwrdd y Gorfforaeth</i>
DYDDIAD CYMERADWYO APPROVAL DATE:	<i>2 Ebrill 2020 (Pwyllgor y Cadeiryddion 29/4/20)</i>
CYLCH ADOLYGU: REVIEW DATE CYCLE:	<i>Blynyddol</i>

POLISI FFIOEDD DYSGU 2020/21

1 Cyflwyniad

Lluniwyd y polisi hwn o ran Ffioedd Arholiadau'n unol â'r Amodau Ariannu a bennwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) ar gyfer dysgwyr addysg bellach a chan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer dysgwyr addysg uwch, a'r rheoliadau a bennwyd gan y Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ) ac unrhyw Gyrrff Dyfarnu a ddefnyddia'r Grŵp ac sydd y tu allan i gylch gwaith y JCQ. Gall yr amodau hyn newid. Mae'n bosib y bydd amodau gwahanol yn berthnasol i ddysgwyr tramor yn ogystal â dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau seiliedig ar waith, rhaglenni a gefnogir gan yr UE a rhaglenni cyswllt ag ysgolion.

2 Amodau Cyffredinol sy'n Ymwneud â Ffioedd - Yn berthnasol i'r holl ddysgwyr

Bydd ffioedd cyrsiau'n cael eu hadolygu'n flynyddol ac maent ar gael ar wefan y Grŵp. Codir tâl am bob blwyddyn o astudio a wneir yn y sefydliad.

Bydd y Grŵp yn gwneud ei orau i sicrhau y caiff gwersi ac arholiadau eu cynnal ar amser ac yn unol â'r amserlen. Ni roddir ad-daliad pe bai'n rhaid canslo gwersi oherwydd digwyddiad natur nad oedd yn bosib ei ragweld neu ymyriad gan drydydd parti er mwyn sicrhau diogelwch staff a dysgwyr. Os bydd angen canslo arholiadau er mwyn sicrhau diogelwch dysgwyr a staff, aildrefnir yr arholiadau, lle bo'n briodol, cyn gynted ag y bo modd a bydd y ffioedd yn cael eu cario ymlaen.

Os bydd y Grŵp yn canslo cwrs, rhoddir ad-daliad llawn.

Cyn eu cofrestru, rhaid cyfeirio at y Gwasanaethau i Ddysgwyr bob dysgwr sy'n iau na 16 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn academiaidd.

Rhaid talu ffioedd wrth gofrestru oni bai fod y Grŵp wedi cytuno i'r gwrthwyneb. Bydd unrhyw ddysgwr sydd wedi cofrestru ar gwrs, ond nad yw'n talu'r ffioedd, yn cael ei wahardd rhag mynychu'r cwrs a rhag sefyll yr arholiad.

Mae ffioedd arholiadau wedi'u cynnwys yn y ffioedd llawn amser ond mae'r ffioedd hyn yn ychwanegol yn achos cyrsiau rhan-amser. Caiff dysgwyr ailsefyll arholiad am ddim unwaith. Pe baent yn absennol (heb ganiatâd), bydd gofyn iddynt dalu'r ffi arholiad. Yn achos cyrsiau rhan-amser, nid oes modd cael ad-daliad ar ôl i'r corff arholi dderbyn y ffi arholiad, oni bai bod y Grŵp yn canslo'r arholiad oherwydd rhesymau diogelwch.

Pennir ffioedd arholiadau wrth gynllunio'r cwricwlwm a chyfeirir atynt i ddibenion anfonebu. Caiff ffioedd arholiadau eu pennu'n unol â'r rhai a godir gan gyrrff dyfarnu, gan ychwanegu tâl gweinyddu am oruchwylio arholiadau yn ôl y galw, a chânt eu gwirio'n flynyddol i sicrhau bod yr un ffioedd arholiadau'n cael eu codi ar draws y Grŵp.

Gellir talu ffioedd dysgu a ffioedd arholiadau gydag:

- Arian parod
- Siec gyda cherdyn banc
- Cerdyn debyd neu gerdyn credyd
- Anfoneb gyda llythyr awdurdodi gan gyflogwr
- Cyllid Myfyrwyr Cymru/Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn achos cyrsiau AU

Fel rheol, cesglir y ffioedd ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd, ond parheir i gasglu ffioedd drwy gydol y flwyddyn gan fod cyrsiau yn dechrau ar adegau gwahanol.

Rhandaliadau

Pan fydd ffioedd dysgu unigolyn yn fwy na £100, mae'n bosibl eu talu mewn rhandaliadau drwy archeb sefydlog. Mae'r amodau a ganlyn yn berthnasol:

- Rhaid derbyn y tâl yn llawn cyn diwedd y cwrs neu bob blwyddyn academiaidd os yw'r cwrs yn para mwy na blwyddyn
- Yn achos ffioedd dysgu sydd rhwng £100 a £500, rhaid talu blaendal o 20% fan lleiaf ac uchafswm o 4 rhandaliad
- Yn achos ffioedd dysgu sydd dros £500, rhaid talu blaendal o 20% fan lleiaf ac uchafswm o 10 rhandaliad
- Os bydd dysgwr yn peidio â thalu ei archeb sefydlog, bydd yn rhaid iddo dalu'n llawn am y cwrs y bydd yn ei ddilyn y flwyddyn ganlynol
- Os bwriedir talu fesul rhandaliadau, rhaid llenwi ffurflen archeb sefydlog wrth gofrestru .
- Mae'r taliadau a'r ad-daliadau sy'n berthnasol i rywun sy'n gadael cwrs yn gynnar wedi'u nodi yn yr adrannau Addysg Bellach ac Addysg Uwch isod ac maent hefyd yn berthnasol os telir mewn rhandaliadau.

Fel rheol, ni fydd staff addysgu'n casglu ffioedd a derbyn arian, ond bydd disgwyl iddynt roi gwybodaeth i ddysgwyr ar gais staff yr Adran Gyllid a'r Gofrestrfa. Dylid talu am ffioedd yn unrhyw un o Swyddfeydd Cyllid neu Dderbynfeydd y campysau a dylai'r dysgwyr gadw eu derbynneb yn brawf eu bod wedi talu.

Ni chaiff ffioedd neu adneuron eu trosglwyddo'n awtomatig o un tymor/blwyddyn/unigolyn i un arall. Dylid trafod trosglwyddiadau o'r fath gyda'r Adran Gyllid neu'r Adran Arholiadau.

Mae'n bosib y bydd tâl ychwanegol ynghlwm wrth rhai cyrsiau i dalu am ddeunyddiau, nwyddau traul a gwasanaethau. Cewch wybod am y tâl ychwanegol hwn wrth gofrestru.

Mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i wrthod cofrestru myfyriwr ar gwrs neu i sefyll arholiad os oes gan y myfyriwr hwnnw arian yn ddyledus i'r Grŵp neu os nad yw wedi talu'r ffi arholiad, y ffi ailsefyll neu'r tâl gweinyddu perthnasol. Gellir ei atal rhag defnyddio cyfleusterau'r Grŵp (yn cynnwys TG) hefyd os na dderbynnir tâl.

Mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i drosglwyddo unrhyw ddyled hwyr i asiantaeth casglu dyledion trydydd parti.

Os na thelir y ffioedd a gytunwyd ar gyfer myfyrwyr AB ac AU, ceidw'r Grŵp yr hawl i godi 'Tâl Gweinyddu' ychwanegol. Mae'r tâl hwn yn cynnwys costau staff ychwanegol, costau cyfreithiol

ac unrhyw ffioedd casglu dyledion a wneir gan drydydd parti. Mae datganiad i'r perwyl hwn ar y ffurflen gofrestru, felly mae myfyrwyr yn ymwybodol ohono cyn llofnodi'r ffurflen. Codir ffi o £30 ynghyd ag unrhyw gostau adennill dyledion. Mewn achosion unigol, gall y Grŵp benderfynu hepgor y ffi hon, os derbynnir y tâl yn ddi-oed.

3 Dysgwyr Addysg Bellach

3.1 Dysgwyr Addysg Bellach Llawn Amser

Ni chodir ffi ddysgu ar ddysgwyr llawn amser sy'n dilyn Rhaglen Ddysgu neu raglen ailsefyll TGAU a gyllidir gan AdAS ac ni chodir ffi arholiad arnynt y tro cyntaf y byddant yn sefyll ac yn ailsefyll yr arholiad. I sefyll yr arholiad yn amlach na hynny, bydd yn rhaid talu ffi a fydd yn dibynnu ar y ffi a godir gan y bwrdd arholi, ynghyd â ffi weinyddol o £10.

Ni chaiff Sefydliadau Addysg Bellach godi tâl am ffioedd dysgu ar ddysgwyr sy'n iau na 19 oed ar neu cyn 31 Awst 2020 ac sy'n dilyn cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd pob dysgwr Addysg Bellach llawn amser yn talu ffi adnoddau bob blwyddyn. Bydd y ffi hon yn talu am gost cynhyrchu cardiau adnabod ac am argraffu hyd at nifer penodol o dalennau bob tymor. Bydd myfyrwyr sy'n gymwys i gael cymorth ariannol gan drydydd partiön yn cael ad-daliad am y ffi adnoddau gan y ffynonellau hynny. Bydd y ffi yn £25 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020–21.

Oni bai ei fod yn cyflwyno nodyn meddyg, bydd dysgwr llawn amser, a gofrestrwyd i sefyll arholiad ond na safodd yr arholiad, yn gyfrifol am ad-dalu'r ffi i'r Grŵp. Mae hyn yn berthnasol yn achos arholiadau ysgrifenedig neu rai a gynhelir ar-lein.

3.2 Dysgwyr Addysg Bellach Rhan-Amser

Mae'n rhaid i ddysgwyr Addysg Bellach rhan-amser dalu ffioedd dysgu a ffioedd arholiad lle bo hynny'n briodol.

Yn 2020/21, bydd yr holl ffioedd AS ac A2 yn cynnwys ffi cwrs o £100 a ffi arholiad o £50. Bydd ffioedd cyrsiau TGAU yn cynnwys ffi cwrs o £80 a ffi arholiad o £40.

Yn 2020/21, bydd ffioedd cyrsiau rhan-amser yn cael eu cyfrifo yn ôl y strwythur a ganlyn, gyda rhai eithriadau penodol fel y nodwyd yn y cyflwyniad. Bydd unrhyw ddysgwr sy'n mewnlenni ar gyrsiau a gynhelir eisoes yn ystod y dydd hefyd yn gorfod talu'r ffi hon.

Hyd y Cwrs mewn Oriau	Ystod Ffioedd Cyrsiau £
0-20	0-60
21-40	60-120
41-60	120-180
61-80	180-240
81-100	240-300
101-140	300-420
141 – 200	420-600

Ni fydd gofyn i ddysgwyr sy'n iau na 19 oed ar ddechrau eu cwrs rhan-amser dalu ffi ddysgu, ond bydd gofyn iddynt dalu'r ffi arholiad.

Bob amser, mae angen talu ffioedd arholiad yn ogystal â ffioedd dysgu. Caiff dysgwyr rhan-amser ailsefyll arholiad am ddim unwaith. Bydd yn rhaid talu ffi, ynghyd â ffi weinyddol o £10, am sefyll yr arholiad yn amlach na hynny.

Ni fydd dysgwyr sy'n dilyn nifer o gyrsiau rhan-amser yn cael eu hystyried yn fyfyrwyr llawn amser.

3.3 Amodau sy'n gysylltiedig â Ffioedd Dysgwyr AB

3.3.1 Consesiynau ar Ffioedd Dysgwyr Rhan-amser

Dysgwyr rhan-amser yn unig sydd â hawl i dderbyn consesiynau ar eu ffioedd. Ceir consesiwn o 50% os yw'r myfyriwr yn gallu dangos ei fod yn derbyn un o'r canlynol:

Credyd cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Tai, Budd-dal Treth y Cyngor, Credyd Pensiwn, Credyd Treth Gwaith a/neu Fudd-dal Analluogrwydd.

Efallai na fydd consesiynau ffioedd yn berthnasol i bob cwrs. Deiliad y gyllideb sy'n penderfynu ar hyn er mwyn diwallu anghenion economaidd ac anghenion y farchnad.

3.3.2 Ad-dalu Ffioedd Oherwydd Penderfyniad i Adael

Pan fydd dysgwyr yn gadael cwrs AB rhan-amser sy'n para mwy na 10 wythnos ar ôl mynychu am hyd at DDWY WYTHNOS (neu am rannau o hyd at ddwy wythnos), gellir ad-dalu'r ffi ddysgu'n llawn, wedi tynnu ffi weinyddu o £30.

Pan fydd dysgwyr yn gadael cwrs sy'n para mwy na 10 wythnos ar ôl mynychu am hyd at BEDAIR WYTHNOS gellir ad-dalu 50% o'r ffi ddysgu, wedi tynnu ffi weinyddu o £30.

Pan fydd dysgwyr yn gadael cwrs AB rhan-amser sy'n para am lai na 10 wythnos o fewn y DDWY WYTHNOS gyntaf, gellir ad-dalu 50% o'r ffi ddysgu.

Ni ad-delir ffioedd dysgu os bydd y myfyriwr wedi mynychu am BEDAIR WYTHNOS neu fwy.

Mae'n bosibl y caiff y myfyriwr ad-daliad am y ffioedd arholiad os nad ydynt wedi cael eu talu i'r Corff Dyfarnu yn barod.

Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, ac eithrio'r uchod, y rhoddir ad-daliadau llawn.

3.4 Dysgu Seiliedig ar Waith

Ni chodir ffioedd ar ddysgwyr sy'n astudio dan gontract Dysgu Seiliedig ar Waith Llywodraeth Cymru (prentisiaethau ac ati) oni bai bod y cymhwyster y ceisir amdano y tu allan i'w Rhaglen Astudio neu os na chwblheir fframwaith cyfan. Yn achos unigolion sy'n astudio cymwysterau NVQ yn unig, gweler adran 8 isod.

Pan fo'r hyfforddiant a gyflwynir yn rhan o gymhwyster cenedlaethol, er enghraifft cymwysterau NVQ, codir tâl, ond gellir cadw'r incwm a geir gan gyrff cyllido mewn cof wrth bennu'r tâl hwnnw. **Os nad yw'r cwrs yn gwrs AU neu'n gwrs AB a gydnabyddir yn genedlaethol, bydd gofyn ychwanegu TAW at y ffi a godir.**

Caiff dysgwyr ailsefyll arholiad am ddim unwaith. Os na fydd dysgwr yn bresennol mewn arholiad a drefnwyd, ac os na fydd wedi cael nodyn gan feddyg neu nodyn cyfatebol, codir arno ffi ailsefyll a bennir gan y corff arholi, yn cynnwys ffi weinyddol o £10, i dalu am gostau goruchwyllo ac ati.

4 Dysgwyr Addysg Uwch

4.1 Cyffredinol

Codir ffioedd dysgu blynyddol ar ddysgwyr yn unol â'r Cynllun Ffioedd AU a gymeradwywyd gan CCAUC ar gyfer cyrsiau a gyllidir yn uniongyrchol. Y ffi am 2020/21 yn achos cyrsiau a gyllidir yn uniongyrchol fydd £8,300 y flwyddyn i ddysgwyr sy'n dechrau astudio ar gwrs AU llawn amser. Mewn achosion pan fo cwrs AU yn gweithredu fel rhan o gytundeb rhyddfrait neu is-gontract, gall rheoliadau ariannol a lefelau ffioedd y sefydliad sy'n bartner i'r Grŵp fod yn berthnasol. Fel y nodir yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad, mewn blynyddoedd sydd i ddod, gall ffioedd y rhai a fydd yn dechrau astudio yn 2020/21 godi'n unol â chwyddiant. Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau yn 2019/20 a chyn hynny, parheir i godi'r gyfradd a oedd yn berthnasol ar ddechrau eu cyrsiau.

Rhaid i fyfyrwyr Addysg Uwch llawn amser sy'n derbyn cymorth ariannol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ddarparu copi o'u hysbysiad ariannol wrth gofrestru. Dylai dysgwyr wneud cais am gyllid mewn da bryd. Gall myfyrwyr o Gymru gael benthyciad ffioedd dysgu gwerth £8,300. Dim ond pan fydd yn ennill mwy na swm penodol (sef £25,725 ar hyn o bryd) y bydd y dysgwr yn dechrau ad-dalu'r benthyciad. Os nad yw'r ffioedd yn cael eu talu drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru/y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, rhaid i'r dysgwr dalu'r ffioedd hyn yn llawn neu drwy randaliadau.

Gall ffioedd cwrs llawn amser sydd dan ryddfrait neu is-gontract gan Brifysgol arall gael eu pennu gan y Brifysgol honno. Golyga hyn fod nifer o ffioedd gwahanol ar gyfer cyrsiau Prifysgol a fydd yn cael eu cynnig gan Grŵp Llandrillo Menai yn 2020-21. Mae gan bob prifysgol hefyd ei chynllun bwrsariaeth ei hun sy'n berthnasol i fyfyrwyr ar y cyrsiau hyn. I gael manylion, holwch diwtor academiaidd y maes astudio.

4.2 Ad-daliadau/Newidiadau i Ffioedd oherwydd Penderfyniad i Arael

Mae'r Grŵp yn cydnabod y gall dysgwyr addysg uwch llawn amser benderfynu peidio â pharhau â'u hastudiaethau am nifer o resymau nad oeddent o bosibl wedi dod i'r amlwg pan oeddent yn cofrestru. O ganlyniad, bydd gan ddysgwyr sy'n gadael o fewn PYTHEFNOS i ddechrau eu cwrs hawl i dderbyn ad-daliad llawn os nad oes unrhyw dystiolaeth o dwyll neu weithrediadau anghyfreithlon neu o unrhyw ddyledion heb eu talu i'r Grŵp.

Os bydd y myfyriwr yn gadael ar ôl y pythefnos cyntaf, bydd ei gyfrifoldeb i dalu'r ffioedd yn dibynnu ar ei statws o ran ffioedd (Cartref, UE neu Ryngwladol), y dyddiad gadael a'r sefydliad y mae'r cwrs yn gysylltiedig ag ef. Dyma ganllaw i ddangos lleiafswm yr atebolrwydd.

Dyddiad Gadael	Canran y Ffi sy'n Ddyledus
Cyn diwedd Tymor 1	25%
Yn ystod Tymor 2	50%
Yn ystod Tymor 3	100%

Cyfrifoldeb y dysgwr yw gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei dynnu oddi ar y cwrs a rhoi gwybod i Gyllid Myfyrwyr Cymru. Gan fod y ffi a godir yn dibynnu ar ddyddiad olaf presenoldeb y dysgwr, dylid rhoi sylw arbennig i'r dyddiad gadael. Ni fydd gan ddysgwyr sydd wedi derbyn benthyciad ffioedd dysgu hawl i dderbyn ad-daliad gan y Grŵp. Bydd y Grŵp yn rhoi gwybod i Gyllid Myfyrwyr Cymru/Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr a bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn newid benthyciad ffi ddysgu'r myfyriwr i gyd-fynd â hynny.

4.3 Ffioedd heb eu Talu

Ni fydd dysgwyr Addysg Uwch llawn amser sydd heb dalu eu ffioedd yn cael symud ymlaen i gam nesaf eu cwrs, derbyn dyfarniadau na dod i seremonïau graddio tan fydd y dyledion i gyd wedi'u talu.

4.4 Bwrsariâu

Fel y nodir yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21, gwnaed newidiadau sylweddol i'r cynllun Bwrsariâu. Er mwyn annog a chynorthwyo dysgwyr AB y Grŵp i symud ymlaen i AU, telir bwrsari o £1,000 i unrhyw ddysgwr a fydd yn symud ymlaen yn syth o ddarpariaeth AB lefel 3 yn y Grŵp i gwrs AU llawn amser i israddedigion.

Bydd y bwrsari am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau, ynghyd â'r bwrsariâu a delir i fyfyrwyr sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn y Gyntaf ac i Blant sy'n Derbyn Gofal, a byddant ar gael yn flynyddol o 2020/21 ymlaen.

Myfyrwyr ar flwyddyn gyntaf eu hastudiaethau

Bwrsari	Swm	Meini Prawf	Dyddiad Talu
Bwrsari Dilyniant Uniongyrchol Grŵp Llandrillo Menai	£1,000	Pob myfyriwr sy'n symud ymlaen yn syth o raglen Lefel 3 i gwrs AU llawn amser yng Ngrŵp Llandrillo Menai	100% ym mis Mai
Bwrsari'r Gymraeg (AU)	£300	Myfyrwyr ar gyrsiau penodol sy'n cwblhau cyfran sylweddol o'u gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg	100% ym mis Mai
Bwrsari Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf neu MALIC	£300	Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs AU llawn amser ac y mae eu cod post mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf	100% ym mis Mai
Bwrsari Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal	£300	Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs Addysg Uwch llawn amser ac sy'n Blant/Bobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal	100% ar ddechrau'r ail semester ym mis Ionawr

Myfyrwyr ar flwyddyn astudio ddilynol

Bwrsari	Swm	Meini Prawf	Dyddiad Talu
Bwrsari'r Gymraeg (AU)	£300	Myfyrwyr ar gyrsiau penodol sy'n cwblhau cyfran sylweddol o'u gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg	100% ym mis Mai
Bwrsari Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf neu MALIC	£300	Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs AU llawn amser ac y mae eu cod post mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf	100% ym mis Mai
Bwrsari Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal	£300	Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs AU llawn amser ac sy'n Blant/Bobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal	100% ar ddechrau'r ail semester fis Ionawr (ynghyd â £500 ar ddiwedd y rhaglen i helpu gyda chostau graddio)

Un o nodau Bwrsari'r Gymraeg yw annog myfyrwyr i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac wrth gynllunio'r bwrsari hwn sydd bellach yn cael ei gynnig yn flynyddol, ystyriwyd ei effaith ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg

5 Myfyrwyr Addysg Uwch Rhan-amser

Pennir ffioedd rhan-amser yn flynyddol ac ni chaiff y ffioedd hyn eu pennu ar sail cyfran o'r ffioedd Addysg Uwch llawn amser. Cost modiwl 10 credyd ar gyfer 2020/21 fydd £275. Fel ag yn achos ffioedd llawn amser, gall ffioedd rhan-amser gynyddu'n unol â chwyddiant yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Bydd ffioedd y dysgwyr yn daladwy fel a ganlyn:

Dyddiad	Canran y Ffi sy'n Ddyledus
Cyn diwedd Tymor 1	25%
Yn ystod Tymor 2	50%
Yn ystod Tymor 3	100%

Os yw cyflogwr yn talu, rhaid i'r dysgwr ddangos llythyr/ffurflen archebu, sy'n cynnwys rhif archeb prynu, gan y cyflogwr. Ni dderbynnir llythyrau heb rif archeb prynu swyddogol.

Gall cyllid fod ar gael gan yr UE i helpu gyda chostau cyrsiau.

6 Dysgwyr Rhyngwladol

Rhaid i ddysgwyr rhyngwladol sydd angen fisa dalu blaendal o 25% cyn gwneud cais am fisa.

Rhaid i Ddysgwyr Rhyngwladol dalu eu ffioedd yn llawn cyn i'r cwrs ddechrau. Ni fydd gostyngiad yng nghost ffioedd os dechreuir ar y cwrs yn hwyr neu os gadewir y cwrs yn gynnar.

Rhoddir ad-daliad os caiff fisa myfyriwr neu ei hawl mynediad ei wrthod ac os caiff copi o'r llythyr gwrthod ei anfon i'r Grŵp. Mae ad-daliadau'n amodol ar dalu ffi weinyddu o £30.

Rhaid i'r dysgwr dalu unrhyw dâl a godir am drosglwyddiad banc.

FFIOEDD RHYNGWLADOL GLLM, MIS MEDI 2020/21

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffioedd am flwyddyn academiaidd 30 wythnos

Rhaglen	Ffioedd Rhyngwladol GLLM i fyfyrwyr a dderbynnir o fis Medi 2020 ymlaen
Lefel A	£7,000
Diplomâu Galwedigaethol	£7,000
Llwybr/Mynediad i AU/Sylfaen	£7,000
Gradd Sylfaen/BA	£9,000
Saesneg Llawn Amser	£6,250 (£190 yr wythnos, 15-21 awr yr wythnos)

7 Cyrsiau Proffesiynol/Cyrsiau Byr i Gyflogwyr

7.1 Ffioedd Cyrsiau Proffesiynol/Cyrsiau Byr i Gyflogwyr

Caiff ffioedd dysgu'r cyrsiau hyn eu pennu i gystadlu â sefydliadau eraill a chyflwr y farchnad. Rhaid i'r ffioedd gynnwys costau'r cwrs yn llawn ynghyd â chostau gorbenion. Ni fydd achosion o beidio â chodi tâl neu gynlluniau rhandaliadau'n berthnasol yn achos y cyrsiau hyn. Ychwanegir TAW i'r ffioedd yn achos y cyrsiau hyn.

Ad-dalu Ffioedd Cyrsiau Byr i Gyflogwyr yn sgil peidio â mynychu neu ganslo'n hwyr

Os na fydd myfyrwyr yn mynychu neu os byddant yn canslo o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad dechrau'r cwrs, codir tâl gweinyddol o 25%.

Gall cyllid fod ar gael gan yr UE i helpu gyda chostau cyrsiau.

8 Cyrsiau NVQ tu allan i'r Contract Dysgu Seiliedig ar Waith

8.1 Ffioedd cyrsiau NVQ sy'n derbyn cyllid gan yr UE

Mae'r Grŵp yn cynnig rhai cyrsiau sy'n derbyn cyllid gan yr UE. Mae ffioedd y cyrsiau hyn yn dibynnu ar fanylebau prosiectau'r UE.

Mae'r Grŵp yn cymryd rhan ym Mhrosiect SEE a nodir isod ffioedd y sectorau y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Cymhwyster a Lefel	Cost Fasnachol	Cyfradd Gyfrannu, yn seiliedig ar Faint y Cwmni	Ffi'r Cwrs
NVQ Lefel 2	£750	Bach – 30% Canolig – 40% Mawr – 50%	£225 £300 £375
NVQ Lefel 3	£1,000	Bach – 30% Canolig – 40% Mawr – 50%	£300 £400 £500
NVQ Lefel 4	£1,250	Bach – 30% Canolig – 40% Mawr – 50%	£375 £500 £625
NVQ Lefel 5	£1,500	Bach – 30% Canolig – 40% Mawr – 50%	£450 £600 £750

Mae'r diffiniad o'r math o gwmni wedi'i seilio ar y nifer o weithwyr, fel yr eglurir isod:

Nifer y Gweithwyr	Y Math o Gwmni
1-49	Bach
50-249	Canolig
>250	Mawr

Yn achos sectorau na roddir blaenoriaeth iddynt, gellir gwneud cais am ffioedd y cyrsiau NVQ.

8.2 Ffioedd cyrsiau NVQ NAD ydynt yn derbyn cyllid gan yr UE

Nid yw ffioedd y cyrsiau NVQ nad ydynt yn rhan o'r contract Dysgu Seiliedig ar Waith, ac nad ydynt yn derbyn cyllid gan yr UE, wedi'u pennu eto. Er mwyn cadarnhau'r sefyllfa, cynhelir trafodaethau pellach yn ystod y mis sydd i ddod.

FFIOEDD ADDYSG UWCH 2020-21 i Ddygwyr sy'n dechrau astudio yn 2020-21

Mae'r Coleg yn gwneud pob ymdrech i gadw'r ffioedd mor isel â phosibl. Dyma'r patrwm ffioedd ar gyfer rhaglenni a gynhelir rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021.

Rhaglenni Llawn Amser i Israddedigion	
Rhaglenni i Israddedigion Cwrs llawn amser, sy'n cynnwys 120 credyd, a gynhelir rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2021.	£8,300 am gwrs llawn amser. Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i dderbyn benthyciad ffioedd dysgu gan Lywodraeth Cymru .
Rhaglenni Rhan-amser i Israddedigion – mae cymorth ar gael i dalu'r costau hyn	
Y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Adeiladu a'r Dystysgrif Addysg uwch mewn Peirianeg Sifil HNC mewn Peirianeg Gyffredinol (Trydanol/Electronig a Mecanyddol) HND mewn Peirianeg	£1,650
Yn achos dysgwyr sy'n astudio'n rhan-amser ar gyfer e.e. Gradd Sylfaen, Gradd Anrhydedd a Gradd Anrhydedd Atodol, seilir y ffi ar £27.50 y credyd. Felly: <ul style="list-style-type: none"> ● 90 credyd ● 80 credyd ● 70 credyd ● 60 credyd ● 50 credyd ● 40 credyd ● 30 credyd 	£2,475 £2,200 £1,925 £1,650 £1,375 £1,100 £825
Yn achos dysgwyr sy'n astudio modiwlau unigol (h.y. ddim yn astudio ar gyfer cymhwyster/dyfarniad llawn)	
Modiwl 10 credyd	£275
Modiwl 15 credyd	£412.50
Modiwl 20 credyd	£550
TBAR a Thystysgrif Addysg Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR) Tystysgrif mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (Tystysgrif Addysg)	£2,244 Y modiwl 10 credyd, Paratoi i Addysgu – £374
Rhaglenni ôl-radd	
MA Celfyddyd Gain	£7,100

Dyma ffioedd Llawn Amser 2020/21 i fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen i'r lefel nesaf. Os nad ydych yn sicr, galwch heibio'r Gwasanaethau i Ddysgwyr.			Y flwyddyn y byddwch yn dechrau/y gwnaethoch ddechrau ar eich cwrs	Ffioedd 2020/21
BA (Anrh)	Rheoli ym maes Lletygarwch	Prifysgol Bangor	2017/18	7,900
BA (Anrh)	Rheoli a Busnes	Prifysgol Bangor	2017/18	7,900
BA (Anrh)	Rheoli ym maes Teithio a Thwristiaeth	Prifysgol Bangor	2017/18	7,900
BA (Anrh)	Rheoli ym maes Lletygarwch	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
BA (Anrh)	Rheoli a Busnes	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
BA (Anrh)	Rheoli ym maes Teithio a Thwristiaeth	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA	Celf a Dylunio	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA	Cynhyrchu ar gyfer y Cyfryngau Darlledu	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA	Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA		Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA	Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA	Rheoli a Busnes	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA	Ffotograffiaeth	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA	Rheoli Digwyddiadau, Lletygarwch a Thwristiaeth	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdA	Rheoli ym maes Busnes	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdEng	Peirianeg Sifil	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdSc	Animeiddio 3D a Datblygu Gemau	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdSc	Cyfrifiadura (Rhwydweithio)	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdSc	Cyfrifiadura (Datblygu Meddalwedd)	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdSc	Adeiladu	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdSc	Plismona	Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn	2018/19	8,100
FdSc	Gwyddor Chwaraeon (Hyfforddi ym maes Chwaraeon)	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
FdSc	Gwyddor Chwaraeon (Addysg Awyr Agored)	Prifysgol Bangor	2018/19	8,100
Dysgwyr sy'n symud ymlaen i ddilyn cwrs atodol yn 2020/21 (ac a ddechreuodd astudio ar gyfer Gradd Sylfaen yn 18/19)				
BA (Anrh) Atodol	Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BA (Anrh) Atodol	Cyfryngau Creadigol	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BA (Anrh) Atodol	Celfyddydau Coginio	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BA (Anrh) Atodol	Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BEng (Anrh) Atodol	Peirianeg Sifil	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BSc (Anrh) Atodol	Animeiddio 3D a Datblygu Gemau	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BSc (Anrh) Atodol	Rheoli ym maes Adeiladu Masnachol	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BSc (Anrh) Atodol	Cyfrifiadura (Rhwydweithio)	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BSc (Anrh) Atodol	Cyfrifiadura (Datblygu Meddalwedd)	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900
BSc (Anrh) Atodol	Gwyddor Chwaraeon (Hyfforddi ym maes Chwaraeon)	Prifysgol Bangor	2019/20	7,900

Codir ffioedd rhan-amser ar fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs sy'n parhau o flwyddyn flaenorol yn ôl y flwyddyn y gwnaethant ddechrau ar y cwrs, fel a ganlyn:

Blwyddyn dechrau ar y cwrs	10 Credyd	20 Credyd	30 Credyd	40 Credyd	50 Credyd	60 Credyd
2017/18	£225	£450	£675	£900	£1125	£1350
2018/19	£250	£500	£750	£1000	£1250	£1500
2019/20	£275	£550	£825	£1100	£1375	£1650

A chodir ffioedd pro rata yn achos niferoedd gwahanol o greydau, ac eithrio yn achos cyrsiau TBAR a'r Dystysgrif Addysg lle codir ffioedd o £1,890 (2017/18) a £2,040 (2018/19) am 60 credyd, a pharheir i godi ffioedd pro rata ar y myfyrwyr hynny a ddechreuodd ar eu cyrsiau yn ystod y blynyddoedd hynny.

Atodiad 1

Y Broses o ran Ailsefyll Arholiadau

Staff y Gofrestrfa fydd yn trefnu i'r dysgwyr ailsefyll arholiadau ar-lein. Cyn y gellir trefnu iddynt ailsefyll eu profion neu arholiadau, rhaid i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen Cais am Ailsefyll Arholiad atodedig a'i chyflwyno, ynghyd â thâl, i unrhyw un o Swyddfeydd Cyllid neu Dderbynfeydd y Grŵp.

Rhaid trefnu bod dysgwyr sydd am ailsefyll arholiad yn cael dwy wythnos waith lawn i ymgymryd â dysgu ychwanegol cyn ailsefyll yr arholiad hwnnw. Rhaid i staff addysgu ddeall bod hyn yn ofynnol pan fyddant yn gwneud ceisiadau am brofion yn agos at ddiwedd y flwyddyn academaidd, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddysgwr sydd wedi methu yn cael amser i roi cynnig arall ar ennill eu cymhwyster.

Rhaid i'r dysgwr lenwi'r ffurflen Cais am Ailsefyll Arholiad atodedig yn llawn a rhaid i'r tiwtor ei llofnodi i gadarnhau bod yr ailsefyll yn ddilys ac y gellir codi tâl amdano. Wedyn, cyn y gellir eu cofrestru ar gyfer yr arholiad, bydd gofyn i'r dysgwyr dalu'r ffi ailsefyll briodol mewn da bryd.

Marcio papurau arholiad

Bydd yn rhaid i ddysgwyr sydd am i'w gwaith gael ei ail-farcio dalu ffioedd y corff arholi. Bydd y Coleg yn gwneud cais am yr ail-farcio cyn gynted ag y telir y tâl priodol.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am gynnal Arholiadau ac i gael rhestr o aelodau'r Tîm Arholiadau, gweler y ffeil arholiadau ar y deilsen Arholiadau ac MIS ar Borth y Grŵp.

CAIS I AIL-SEFYLL ARHOLIAD / APPLICATION FOR EXAM RESIT

Llenwch y ffurflen hon i wneud cais i ailsefyll yn unig os gwelwch yn dda / Please complete this form to request resits only

MANYLION Y MYFYRIWR / STUDENT DETAILS:

Enw Llawn / Full Name:		Rhif ID / ID No:	
Llofnod y Myfyriwr / Student Signature:		Dyddiad / Date:	

MANYLION YR AIL-SEFYLL / RESIT DETAILS:

Cod y Cwrs / Course Code:		Teitl y Cwrs/ Course Title:	
Bwrdd Arholi / Awarding Body:		Rhif y Pwnc/Cynllun / Subject/Scheme No:	
*Cod Cyfnewid / *Cash-in Code		*Pris Cyfnewid / *Cash-in Price:	£

*Arholiadau TAG yn unig / * GCE Exams only

Dyddiad Arholiad (os ydych yn gwybod) / Exam Date (if known):	Ticiwch fel y bo'n addas / Tick as appropriate		Cod yr Uned / Unit Code:	Pris yr Uned / Unit Price:
	Ar-lein / Online	Ar bapur / Written		
				£
				£
				£
				£
			Cyfanswm y Gost / Total Cost:	£
Enw'r Tiwtor / Tutor's Name:				
Llofnod y Tiwtor / Tutor's Signature:		Dyddiad / Date:		

CANLLAWIAU:

Llenwch y ffurflen hon, gan roi eich manylion chi a manylion yr unedau yr hoffech eu hailsefyll. Ar ôl ei llenwi, ewch â'r ffurflen at eich tiwtor pwnc i'w chymeradwyo. **NODWCH: Ni chaiff y ffurflen hon ei phrosesu heb gymeradwyaeth eich Tiwtor Personol/Tiwtor Pwnc.** Wedi iddi gael ei chymeradwyo, cyflwynwch y ffurflen, ynghyd â chyfanswm y ffioedd sy'n daladwy, i'r Swyddfa Gyllid. Ar ôl derbyn y taliad, bydd yr Adran Gyllid yn cyflwyno'r ffurflen hon, ynghyd â'r dderbynneb, i'r Adran Arholiadau.

GUIDANCE NOTES:

Complete this form with your details and details of the units you intend to resit. Present the form to your subject tutor for approval. **NOTE: This form will not be processed without your Personal Tutor / Subject Tutor approval.** Present the approved form along with the total fees payable to the Finance Department. Once payment is completed and authorized, Finance will pass this form to the Exams Department.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Teitl y Polisi/y Weithdrefn/y Broses: Polisi Ffioedd Dysgu

Y Staff sy'n Ymwneud ag Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: Panel 4/4/19

Ystyriaeth	Ateb	Gofynion o ran tystiolaeth bellach	Canlyniad
Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses?	Ni allai grwpiau penodol fod o dan anfantais	Monitro i sicrhau nad oes grwpiau penodol o staff na dysgwyr o dan anfantais.	
Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses?	Pob grŵp a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010		
A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?	Mae'r polisi'n cyfeirio at fyfyrwyr rhyngwladol.		
A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?	Nid os cedwir yn llawn at y polisi		
A oes polisiâu eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?			
Casgliad: Ticiwch un	Addasu'r Polisi	<u>Parhau â'r Polisi a'i brosesu</u>	Atal a Diddymu'r Polisi
Rhestrwch:			
Dyddiad cwblhau'r camau addasu	[]		

Llofnod: ALG

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Enw'r Polisi neu'r Weithdrefn: **Polisi Ffioedd Dysgu**

Staff/Grwpiau sy'n rhan o'r asesiad: **Y Panel Iaith**

Ystyriaeth	Ateb	Gofynion o ran tystiolaeth bellach	Canlyniad
Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Cyhoeddir y polisi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dylai unigolion fod yn ymwybodol y cedwir eu data yn Gymraeg a/neu yn Saesneg, ac os dymunant drafod eu data, gallant wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gellir gwneud ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg a chyhoeddir unrhyw ddogfennau atodol yn ddwyieithog.		
Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Dim		
A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd?	Oes		
A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio a dderbyniodd Grŵp Llandrillo Menai mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg?	Ydyw		
Casgliad	Addasu'r polisi neu'r weithdrefn	<u>Parhau â'r polisi neu'r weithdrefn</u>	Atal a diddymu'r polisi neu'r weithdrefn
		IE	